# Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) 2017-2019 Prosiectau a Argymhellwyd ar gyfer Cyllid

## GOGLEDD CYMRU

### Twristiaeth Gogledd Cymru – Ymgyrch Marchnata Integredig Gogledd Cymru

Bydd Ymgyrch Marchnata Integredig arfaethedig Twristiaeth Gogledd Cymru yn hyrwyddo'r rhanbarth ym Meysydd Awyr Lerpwl a Manceinion ac yn cydweithio'n agos gyda'r farchnad yn yr Almaen trwy bresenoldeb busnes i fusnes yn ITB Berlin (2018), ymgyrch radio a chystadleuaeth yn yr Almaen. Bydd Twristiaeth Gogledd Cymru yn datblygu teithlenni newydd o Faes Awyr Lerpwl ynghyd â chyfieithu deunydd hyrwyddo. Mae cerddoriaeth wedi cael ei hymgorffori yn y prosiect, gan weithio gyda Sinffonia Gogledd Ddwyrain Cymru i gomisiynu dau ddarn newydd o gerddoriaeth a fydd yn cael eu perfformio ledled y rhanbarth ac a fydd yn adlewyrchu'r blynyddoedd thematig – y cwbl wedi'i fwriadu i ddarparu profiad chwedlonol ar gyfer ymwelwyr. Bydd Twristiaeth Gogledd Cymru yn hyrwyddo'r rhanbarth yn Iwerddon hefyd, gan hysbysebu ar goetsis awyr yn Nulyn ac mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth allweddol, cabanau digidol ym mhrif ganolfannau siopa Dulyn a bydd yn cynrychioli'r rhanbarth yn Sioe Wyliau Dulyn. Bydd grwpiau a chynadleddau'n cael eu datblygu trwy ymgyrch thematig gan ddatblygu cynnwys ar y we a mynychu sioeau'r diwydiant teithio. Bydd y rhaglen Gerddi'n cael ei datblygu ymhellach trwy'r wefan a datblygu animeiddiadau a deunyddiau argraffedig creadigol. Bydd mapiau rhyngweithiol yn cael eu datblygu i roi offeryn arloesol i ymwelwyr sy'n dod â ffilm a mapiau ynghyd. Yn olaf mae Twristiaeth Gogledd Cymru yn bwriadu cynnal Cynhadledd Twristiaeth trawsffiniol gan gydweithio'n agos gyda Swydd Gaer a rhanbarth ehangach Gogledd Orllewin Lloegr.

### Cyngor Sir Gwynedd – Gwlad y Chwedlau

Mae'r prosiect yn seiliedig ar ddwy brif elfen y gellir eu cyflawni, sef 'Cynnwys a Hyrwyddo'. Bydd y prosiect yn comisiynu model 'enfawr' o Caledfwlch, Cleddyf y Brenin Arthur i adeiladu ar ryddhau'r ffilm 'Arthur' yn 2017 a chysylltu â lleoliadau 'Arthuraidd' allweddol rhanbarth Gogledd Orllewin Cymru. Bydd rhaglen wedi'i threfnu o ddigwyddiadau cysylltiadau cyhoeddus yn cael ei chynnal ar gyfer y gosodiad, a bydd y rhaglen hon yn ei thro'n galluogi partneriaid y prosiect i gyflawni'r ail gam. Bydd yr ail gam hwn yn cynnwys dosbarthu cynnwys i gyflawni ymgyrch marchnata/cysylltiadau cyhoeddus ar-lein ac all-lein trawiadol (gan weithio gyda sêr ac unigolion adnabyddus i ddatblygu cyfres o fideos byr, e.e. Bryn Terfel yn adrodd storïau sy'n gysylltiedig â Blwyddyn Chwedlau a'r cyfan yn gysylltiedig â llwybrau ffisegol, golff, bwyd a.y.b.) a fydd yn targedu'r rhannau o'r farchnad sy'n gysylltiedig â fforwyr unigol fel a nodwyd gan Croeso Cymru. Bydd y dull Stori Epic hwn yn gweithio gydag actorion a pherfformwyr i gyflwyno storïau chwedlonol mewn lleoliadau allweddol e.e. Festival No6, Haven, Cestyll a'r Eisteddfod Genedlaethol, ar drenau sy'n rhedeg ar hyd arfordir Gogledd Cymru, ar y fferi o Ddulyn ac o bosibl trwy gadwyni megis Starbucks yn Llundain. Mae'r gweithgaredd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod ymwelwyr sy'n cyrraedd ar drên yn gallu dal cysylltiadau rhwydd

ymlaen at atyniadau a bydd yn gweithio gyda blogwyr fideo i ddangos pa mor hawdd y mae teithio'r 'filltir olaf' honno'n gallu bod. Yn olaf, bydd teithlenni trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu datblygu ar gyfer llwybrau bwyd, llwybrau arfordir, llwybrau mynydd.

**Cyngor Sir Ynys Môn – Prosiect Mordeithiau Rhanbarthol Gogledd Cymru**
Cynnig yw hwn i gyflawni rhaglen ddwy flynedd o weithgareddau a digwyddiadau croesawu mordeithiau ar gyfer tymhorau mordeithiau 2017 a 2018 gan ddarparu profiad 'chwedlonol' ar gyfer teithwyr. Bydd gweithgareddau'n cynnwys perfformiadau a digwyddiadau ar lanfeydd sydd wedi'u lleoli yng Nghaergybi, Llandudno a chyrchfannau allweddol yng Ngogledd Cymru. Y nod hirdymor yw cyflawni twf o 2% o flwyddyn i flwyddyn yn niferoedd y teithwyr ac yng ngwerth mordeithiau i Ogledd Cymru. Bydd y prosiect hwn yn cael ei gyflawni'n rhanbarthol gan bartneriaid ac yn cael ei gydgysylltu gan y swyddog prosiect dynodedig. Bydd y gweithgarwch yn datblygu pedair noson Gymreig ar fwrdd llongau sy'n ymweld ac mewn lleoliadau cyfagos i gynnwys a hyrwyddo cynnyrch a diwylliant Cymru a rhoi cyfleoedd i hybu ymdeimlad o le ar gyfer ymwelwyr a chwmnïau llongau; bydd yn datblygu tri digwyddiad 'cwrdd â'r prynwr' mewn partneriaeth gydag asiantau llongau gan amlygu cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi a gynigir gan longau mordeithiau sy'n ymweld; bydd yn datblygu cyfeiriadur cyflenwyr i'w ddefnyddio gan asiantau mordeithiau a Phrosbectws cyflenwyr porthladdoedd; bydd yn datblygu wyth teithlen newydd wedi'u pecynnu ar gyfer mordeithiau sy'n ymweld â Gogledd Cymru ac yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer angori pleserlongau a llongau mordeithiau ym mhorthladdoedd pen taith allweddol Gogledd Cymru. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys deunydd hyrwyddo i'w ddosbarthu yn sioeau'r diwydiant mordeithiau a chyfryngau digidol sy'n canolbwyntio ar Flwyddyn y Môr 2018. Mae'r cynnig yn awgrymu hefyd y dylid datblygu un Fforwm Mordeithiau ar gyfer Gogledd Cymru a thaith ddysgu i borthladd tebyg i Gaergybi.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ran Ymddiriedolaeth Gelfyddydau Conwy – Walrws, Gŵyl Ryngwladol Chwedlau'r Môr (hefyd wedi'i gyflwyno dan y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth, ond wedi'i sgorio dan y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol yn unig)**
Bydd Walrws, Gŵyl Ryngwladol Chwedlau'r Môr yn ŵyl dros benwythnos a ysbrydolwyd gan chwedlau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n ymwneud â'r môr ac a enwyd ar ôl y gerdd 'The Walrus & the Carpenter' gan Lewis Carroll a ysbrydolwyd yn ei thro wedi i'r awdur fwyta wystrys yn Llandudno (ac a ysgogodd y Beatles i gyfansoddi eu cân enwog "I am the Walrus" hefyd). Mae'r prosiect hwn yn gwneud y gwaith cwmpasu ar gyfer yr ŵyl: datblygu'r partneriaethau, darparu cyfeiriad strategol, amserlennu'r rhaglen artistig, a sefydlu'r brand trwy Farchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus .

**Cyngor Sir Ddinbych ar ran Gogledd Ddwyrain Cymru – Llwybrau i'r Môr** Nod y prosiect 'Llwybrau i'r Môr' yw arddangos amrywiaeth gyfoethog yr arlwy dwristiaeth yng Ngogledd Ddwyrain Cymru trwy ddarparu gweithgareddau a phrofiadau cyfoes a diddorol ar gyfer ymwelwyr. Bydd y prosiect yn hyrwyddo ac yn adrodd storïau

diddorol am ein morlin, ein llwybrau beicio, llwybrau cerdded gan gynnwys Clawdd Offa, beicio mynydd, gweithgareddau awyr agored, y dirwedd gan gynnwys yr AHNE, safleoedd hanesyddol, camlesi ac afonydd yn ogystal â dathlu ein harlwy bwyd. Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni trwy'r canlynol: gweithdai Busnes i Fusnes, creu cynnwys digidol a ffotograffig a chomisiynu blogwyr. Bydd her bwyd môr NEWYDD yn cael ei gosod a bydd tri digwyddiad allweddol yn cael eu cynnal ledled ardaloedd pob ALI.

## CANOLBARTH CYMRU

**Twristiaeth Canolbarth Cymru a RealMidWales – Newid Canfyddiadau**
Bydd y prosiect rhanbarthol cydweithredol hwn yn adeiladu ar y gweithgarwch yn y cyfryngau a ariannwyd gan y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol ac a gyflawnwyd ar ran yr holl gyrchfannau yng Nghanolbarth Cymru yn 2016/17. Bydd yn cynyddu i'r eithaf botensial arfordir Canolbarth Cymru (gan adeiladu'n benodol ar Lwybr Arfordir Cymru), ei lynnoedd a'i afonydd a bydd yn datblygu cynnwys i hyrwyddo ac ategu Blynyddoedd Thematig a Llwybrau Cymru. Bydd yr ymgyrch marchnata'n anelu at farchnadoedd allweddol Llundain, Canolbarth Lloegr, Lerpwl, Manceinion a Bryste. Bydd y prosiect yn cynnwys datblygu platfformau cymdeithasol arloesol ar gyfer cyrhaeddiad pellach a chreu cynnwys a fydd yn adlewyrchu 'Canolbarth Cymru Go Iawn' mewn modd digamsyniol. Bydd yn defnyddio fideos mewn arddull VoxBox ac ar ffurf datganiadau cryno, gan gyfweld ag ymwelwyr ac "arwyr" lleol ar hyd llwybr yr arfordir a recordio storïau, argymhellion a hanes eu profiadau' bydd yn rhoi anogaeth i ddefnyddio Facebook Live ar gyfer adrodd storïau mewn modd digymell a diledryw 'ar y pryd', a bydd yn arddangos y digwyddiadau arbennig a chyffrous sy'n gwneud y cyrchfan yn brofiad gwirioneddol unigryw. Gallai cynnwys a dargedir yn y cyfryngau cymdeithasol – gan amlygu ochr ysgafnach, hynod Canolbarth Cymru – gyrraedd 11 miliwn o ymwelwyr newydd.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Bannau Brycheiniog, Lle Chwedlonol**
Mae'r cynnig hwn wedi'i fwriadu fel tri phecyn gwaith cysylltiedig sy'n cwmpasu Chwedlau, 'I Lawr at y Môr' a Llwybr yr A470 a Bwyd Lleol. Bydd ymgyrch marchnata digidol yn cynnwys creu cynnwys blog yn ogystal â chreu cyfathrebiadau rheolaidd ar Facebook, Twitter ac Instagram. Bydd ffotograffau, fideos byw a phytiau a ffilmiwyd â drôn yn creu deunydd newydd i'w ddefnyddio i farchnata'r ardal. Mae'r prosiectau'n ceisio caffael asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus allanol i ysgogi sylw yn y wasg a'r cyfryngau. Fel rhan o'r cynnig ar gyfer y prosiect cyfan, bydd gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu gwefan er mwyn sicrhau bod y cynnwys newydd a gaiff ei greu'n cael ei hyrwyddo'n effeithiol. Bydd datblygu cynnyrch newydd yn ennyn ymgysylltiad ymwelwyr â'r cysylltiadau rhwng y mynyddoedd a'r môr. Bydd animeiddiad newydd ar y we'n adrodd stori Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu a bydd teithiau cylchol byr yn cael eu creu yn seiliedig ar y llwybrau i ac o'r gamlas a hefyd gan ddefnyddio'r llwybr tynnu a chyfleusterau sy'n seiliedig ar y gamlas, yn enwedig y rhai sy'n seiliedig ar ganolfannau'r pentrefi. Mae nifer sylweddol o atyniadau a chyfres o deithiau cerdded sy'n bodoli'n barod wedi'u sefydlu yn agos at ffordd yr A470, sef y brif fynedfa i'r ardal, neu ar y ffordd ei hun. Bydd hyn yn dod â'r holl elfennau gwahanol hyn at ei gilydd fel adnodd ar y we a byddant yn cael eu cysylltu â dull creadigol o adrodd storïau trwy fideos ar y we.

**Cyngor Sir Ceredigion - Dathlu'r arfordir ac Aberoedd Ceredigion**
Bydd y cynnig hwn yn arddangos tirwedd, hanes diwylliant a bywyd gwyllt Ceredigion trwy arloesi ac adloniant. Bydd dau ddigwyddiad unigol, eiconig a mentrau creadigol dros dro/mewn arddull fflachdorf. Bydd CS Ceredigion yn caffael hwylusydd i gynorthwyo partneriaid i gynllunio a chyflawni'r cynnig yn effeithiol dros

ddwy flynedd, gan gynnwys gweithio i ddatblygu canolbarth Cymru ymhellach fel cyrchfan beicio sy'n bwysig yn rhanbarthol.

Bydd y prosiect yn datblygu cynnwys digidol sy'n canolbwyntio ar draethau, trefi a phentrefi arfordirol gwobrwyol, treftadaeth a bywyd gwyllt morol; bydd yn datblygu cynnwys ac yn hyrwyddo llwybr arfordirol yr A487, gan ymgorffori ffyrdd newydd o hyrwyddo llwybrau presennol ynghyd â rhai newydd a ddatblygir gan gynnwys bwyd, celf a chrefft, trafnidiaeth gyhoeddus, Llwybr Arfordir Cymru ynghyd ag atyniadau a darparwyr gweithgareddau; bydd yn gwella llwybrau trefi â thechnoleg i-beacon ac yn datblygu clystyrau o lysgenhadon digidol – busnesau â wi-fi yn ymgysylltu â'r cyhoedd; bydd yn cynhyrchu animeiddiadau deongliadol byr ar y thema forol i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol, y wefan ac at ddibenion cysylltiadau cyhoeddus; bydd yn datblygu ffotograffiaeth gyfoes, a chystadleuaeth ffotograffiaeth, sy'n benodol i'r thema forol neu ddyffrynnoedd afonydd sy'n cyd-fynd â chanllawiau Croeso Cymru o ran y brand a'r neges, yn enwedig mewn digwyddiadau neu weithgareddau a gefnogir gan y cynnig; bydd yn datblygu naratifau a chlipiau fideo byr, hynod y gellir eu cynnwys mewn ymgyrchoedd dros y prosiect dwy flynedd.

## Y DE DDWYRAIN

Y nod yw darparu dull integredig o farchnata cyrchfannau. Yr amcanion yw cynyddu proffil y Ddinas-ranbarth trwy weithgareddau wedi'u targedu gyda'r diwydiant teithio a defnyddwyr. Bwriedir datblygu perthnasoedd gweithio agosach â gweithredwyr teithiau (grwpiau/coetsis) i ddatblygu eu pecynnau a chynyddu nifer yr ymwelwyr a swm y gwariant yn y rhanbarth. Ceir ymgyrch hefyd ar gyfer atyniadau i ymwelwyr dydd sy'n gweithio gyda marchnadoedd y diwydiant teithio a defnyddwyr.

**Amgueddfa Cymru, Caerdydd – Dinosoriaid ar Grwydr**
Digwyddiad cysylltiadau cyhoeddus ar raddfa fawr fydd hwn i roi gogwydd newydd ac arloesol ar raglen Blwyddyn Chwedlau'r Amgueddfa gyda digwyddiad cysylltiadau cyhoeddus o safon uchel yn Amgueddfa Cymru, Caerdydd. Bydd y brif ran o'r prosiect nid yn unig yn denu pobl i'r Amgueddfa i weld yr arddangosfa ond bydd hefyd yn hyrwyddo Caerdydd a De Cymru fel cyrchfan diwylliannol, gan ddarparu profiad treftadaeth unigryw ar gyfer ymwelwyr. Y dinosor Cymreig eiconig, y Dracoraptor, fydd canolbwynt y digwyddiad cysylltiadau cyhoeddus hwn fel porthol i fyd rhyfeddol dinosoriaid. Bydd Ymgyrch Rhagflas gyda gosodiadau ledled y ddinas yn ymddangos gan gyrraedd penllanw gyda'r 'dinosor ar grwydr' yn dringo allan o Amgueddfa Cymru, Caerdydd. Yn dilyn yr effaith gychwynnol yn Amgueddfa Cymru, Caerdydd, bydd Dracoraptor annibynnol ar raddfa fawr yn cael ei adael yn rhydd i grwydro Cymru, gan ymweld â rhai o'r Amgueddfeydd Cenedlaethol eraill.

**CBS Merthyr – Ymgyrch Gwrthryfel Merthyr a Dic Penderyn**
Nod y prosiect hwn yw ehangu'r ŵyl bresennol, Gŵyl Gwrthryfel Merthyr, i hybu ymwybyddiaeth ehangach o'r cyrchfan, creu platfform a thueddiad at ymweliadau dychwel a datblygu bri Merthyr Tudful fel cyrchfan bywiog, sy'n datblygu. Elfen eilaidd i Ŵyl Gwrthryfel Merthyr fydd creu stori Dic Penderyn sy'n gyson iawn â blwyddyn thema Chwedlau Croeso Cymru. Mae cysylltiad agos rhwng y ddwy elfen a blaenoriaethau yng Nghynllun Gweithredu Cyrchfan Merthyr Tudful.

**CBS Torfaen – Teithio mewn Amser yn Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon**
Nod y prosiect hwn yw rhoi anogaeth ar gyfer ymgysylltiad trwy greu cyfle i roi ymwelwyr ar fainc yn y byd go iawn a mynd â hwy yn ôl mewn amser gan ddefnyddio Google Cardboard a Rhith-wirionedd i weld safleoedd allweddol yn Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon fel y byddent wedi edrych yn eu hanterth. Bydd meinciau 'Teithwyr Amser' wedi'u lleoli yng Ngwaith Haearn Blaenafon, y Pwll Mawr a Thref Dreftadaeth Blaenafon. Trwy rith-wirionedd bydd y safleoedd hyn yn cael eu hanimeiddio i ddangos sut yr oeddent yn edrych yn ystod y 19eg ganrif, gan roi profiad i ymwelwyr yn Safle Treftadaeth y Byd nad ydynt erioed wedi'i gael o'r blaen.

**CBS Blaenau Gwent (Ymgeisydd Arweiniol) – Penwythnos yn y Cymoedd**
Prosiect cydweithredol ar draws 6 Awdurdod Lleol (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen) yw hwn. Bydd y prosiect yn datblygu ymgyrch egwylion byr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau ac sy'n gyson â blynyddoedd thematig Croeso Cymru. Bydd y partneriaid yn ymgysylltu â diwydiant

yn y sector preifat a'r trydydd sector i gyflawni rhaglen ddigwyddiadau gyffrous ac arloesol sy'n cyfleu'r profiad cyffredinol unigryw yn y Cymoedd gan gynnwys ein treftadaeth a diwylliant cyfoethog. Bydd yr ymgyrch marchnata ategol yn cael ei lywio gan y cyfryngau cymdeithasol, y we, cysylltiadau cyhoeddus a chystadlaethau gan ddefnyddio mecanweithiau presennol. Bydd yn adeiladu ar waith a wnaed ac a gyflawnwyd trwy brosiect blaenorol Ymgyrch Marchnata'r Cymoedd.

**Y DE ORLLEWIN**

Ni chafodd unrhyw Brosiectau eu hargymell ar gyfer cyllid o’r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol